# PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd yn YSTAFELL GYNHADLEDD 1b, NEUADD Y SIR, RHUTHUN, Dydd Mercher, 26 Medi 2012 am 9.30 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Stuart Davies, Martyn Holland a/ac Jason McLellan (Cadeirydd) a/ac Paul Whitham.

## HEFYD YN BRESENNOL

P. McGrady (Head of Finance and Assets), R. Weigh (Chief Accountant) a/ac
Gary Williams (Head of Legal and Democratic Services), Wales Audit Office Representatives (DO, AV and NR), Committee Administrator (CIW).
Y Cynghorydd Bill Tasker a/ac Julian Thompson Hill

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Raymond Bartley, Gwyneth Kensler a/ac David Simmons

## 2 DATGAN BUDDIANNAU

***PENDERFYNWYD** – na fu i unrhyw Aelod ddatgan unrhyw fuddiannau personol na buddiannau sy'n rhagfarnu unrhyw fusnes i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.*

## 3 MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu trafod yn y cyfarfod fel materion brys dan Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 5ed Medi, 2012.

Materion yn codi:-

6. Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol – Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd M L Holland mewn perthynas â chyflwyno'r adroddiad archwilio terfynol i'r Pwyllgor mewn perthynas â Gwasanaethau Cludiant Cartref i'r Ysgol, esboniodd y Pennaeth Cyllid ac Asedau y byddai'r adroddiad, a oedd yn cael ei gwblhau ar hyn o bryd, yn cael ei ddosbarthu i aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol pan fyddai'n barod.

8. Adroddiad Rheoli’r Trysorlys – Mewn ymateb i gwestiwn gan Mr P. Whitham mewn perthynas â darpariaeth hyfforddiant ar reoli’r trysorlys, esboniodd y Pennaeth Cyllid ac Asedau y byddai adroddiad, neu sesiwn hyfforddi, yn cael ei ddarparu yn chwarterol, gyda’r sesiwn neu’r adroddiad nesaf ar y rhaglen ar gyfer Rhagfyr 2012.

***PENDERFYNWYD*** *– yn amodol ar yr uchod, derbyn a chymeradwyo’r cofnodion fel cofnod gwir a chywir.*

## 5 DATGANIAD CYFRIFON 2011/2012

Roedd copi o adroddiad gan y Pennaeth Cyllid ac Asedau, yn gofyn i’r Aelodau gymeradwyo Datganiad Cyfrifon y Cyngor 2011/12, wedi ei ddosbarthu yn y cyfarfod.

Esboniodd y Pennaeth Cyllid ac Asedau bod gan y Cyngor ddyletswydd statudol i gynhyrchu datganiad cyfrifon a oedd yn cydymffurfio â safonau cyfrifeg cymeradwy. Cymeradwywyd y Datganiadau Ariannol ar gyfer 2011/12, yn amodol ar archwiliad, gan y Prif Swyddog Cyllid ym Mehefin 2012. Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio yn ei gwneud yn ofynnol bod y Cyngor yn cymeradwyo’n ffurfiol y cyfrifon wedi eu harchwilio, sy’n cynnwys barn yr archwiliwr allanol, erbyn diwedd Medi 2012. Roedd cymeradwyo’r cyfrifon archwiliedig yn ffurfiol, gan aelodau etholedig ar ran y Cyngor, wedi ei ddirprwyo i’r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol. Cadarnhawyd bod y cyfrifon wedi bod ar gael i’w harchwilio ac yn agored i’r cyhoedd eu harchwilio. Roedd Swyddfa Archwilio Cymru wedi cyflwyno Adroddiad Archwilio’r Datganiadau Ariannol a oedd yn cynnwys trosolwg o’u darganfyddiadau ac asesiad o’r broses.

Roedd y Datganiad Cyfrifon, yn cynnwys 149 o dudalennau, wedi ei gynhyrchu gan gydymffurfio â Chod Ymarfer ar Gyfrifeg Awdurdod Lleol sy’n seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS). Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd M.L. Holland, rhoddodd y Prif Gyfrifydd fanylion yn ymwneud â’r IFRS ac esboniodd bod cydymffurfio â’r IFRS wedi bod yn ofyniad ers 2010/11 gyda chyflwyniad parhaus safonau neu ofynion newydd. Y newid mwyaf nodedig ar gyfer cyfrifon 2011/12 oedd cyflwyno dosbarth newydd o asedau a elwid yn asedau treftadaeth, ac roedd yn Cyngor, yn unol â hynny, wedi newid ei bolisïau a’i ddatgeliadau cyfrifeg yn y cyfrifon i gydymffurfio gyda’r Cod Ymarfe.

Mabwysiadwyd safonau cyfrifeg IFRS ledled y byd. Fodd bynnag, gan fod rhai meysydd o driniaeth cyfrifeg sector cyhoeddus yn gwyro oddi wrth yr IFRS, fel mewn gofynion deddfwriaethol, cyflwynwyd Safonau Cyfrifeg Cyhoeddus Rhyngwladol i ddelio â’r darpariaethau hynny.

Roedd Swyddfa Archwilio Cymru wedi gweithio’n agos â’r tîm Cyllid i sicrhau cwblhau’r archwiliad yn amserol a llwyddiannus. Roedd y broses archwilio wedi arwain at addasiadau technegol, cywiriadau eraill ac roedd newidiadau a manylion wedi eu cynnwys yn Adroddiad yr Archwiliwr.

Roedd y Datganiad Cyfrifon unwaith eto wedi derbyn barn archwilio ddiamod, a oedd yn llwyddiant arwyddocaol o ystyried maint a chymhlethdod y cyfrifo. Cafwyd ymarfer mawr yn 2010/11 i gynhyrchu'n llwyddiannus gyfrifon a oedd yn cydymffurfio gyda'r safonau rhyngwladol newydd, ac roedd y broses i weithredu IFRS wedi parhau wrth i ofynion ychwanegol gael eu cyflwyno. Byddai trefniadau mewnol yn cael eu hadolygu bob blwyddyn i sicrhau bod y Cyngor yn parhau i gyflwyno datganiadau ariannol o safon uchel.

Amlygodd y Prif Gyfrifydd Dros Dro natur gymhleth y cyfrifon, a chyda chymorth cyflwyniad PowerPOint, rhoddodd drosolwg o'r prosesau a fabwysiadwyd. Roedd hyn yn cynnwys crynodeb manwl mewn perthynas â'r meysydd allweddol canlynol a'r materion yn ymwneud â'r Datganiad Cyfrifon:-

- Trosolwg
- Cyfrifon
- Prif Ddatganiadau Ariannol
- Proses a Fabwysiadwyd
- Cysylltiad â Cyllidebau Refeniw
- Rhifau a Nodiadau Allweddol
- Proses Archwilio
- Cwerstiynau

Rhoddodd y cyflwyniad drosolwg o'r prif newidiadau a oedd yn cynnwys cyflwyniad dosbarth newydd o asedau treftadaeth. Cadarnhawyd bod y Cyngor yn unol â hynny wedi newid ei bolisïau a'i ddatgeliadau cyfrifeg yn unol â'r Cod Ymarfer.

Mewn ateb i gwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor, ymatebodd y Pennaeth Cyllid ac Asedau fel a ganlyn:-

- Byddai copïau o'r cyfrifon drafft yn y dyfodol yn cael eu cyflwyno i Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.
- Gellid darparu copïau caled o'r adroddiadau ar gyfer 2011/12 a blynyddoedd yn y dyfodol i'r Aelodau yn ychwanegol at y fersiynau electtronig.
- Rhoddwyd amlinelliad o'r anawsterau a gafwyd wrth ddarparu pris mewn perthynas ag asedau treftadaeth.
- Manylion a ddarparwyd mewn perthynas ag arwyddocad cronfeydd wrth gefn a mewn perthynas â'r cyfrifon terfynol a darpariaethau ar gyfer dyledion drwg.
- Mewn perthynas â rhoi sicrhad mewn cysylltiad â chysondeb cofnodion ar y gofrestr asedau a'r llechresi, gyda chyfeiriad penodol at asedau treftadaeth ac arteffactau penodol a ddelid gan y Cyngor. Esboniwyd bod dibyniaeth nawr ar ddarparu gwybodaeth gywir fanwl gan staff proffesiynol yn y Gwasanaeth Amgueddfa, ynghyd â chymorth proses Archwilio Mewnol.

Dosbarthwyd copi o Adroddiad Archwiliad y Datganiad Ariannol i Aelodau'r Pwyllgor. Cyflwynodd Archwilwyr Allanol y Cyngor, Swyddfa Archwilio Cymru, ganfyddiadau eu gwaith archwilio mewn perthynas â'r Datganiad Cyfrifon 2011/2012 a rhoi crynodeb manwl a oedd yn tanlinellu'r meysydd a'r materion canlynol:-

- Rhoi barn ar a oedd y datganiadau ariannol yn darparu golwg gywir a theg o sefyllfa ariannol y Cyngor ar 31ain Mawrth 2012, a'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn.
- Gwaith archwilio mewn perthynas â'r datganiadau ariannol drafft ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31ain Mawrth 2012 wedi ei gyflawni'n sylweddol.
- Adrodd ar y materion mwy arwyddocaol yn codi o'r archwiliad, yr oedd y tîm archwilio eisoes wedi eu trafod gyda'r Pennaeth Cyllid ac Asedau.
- Mabwysiadu syniad materoldeb i adnabod camddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol.
- Manylion lefelau meintiol ar y rhain y bernir camddatganiadau.
- Cyflwyno adroddiad archwilio diamod ar ddatganiadau ariannol Sir Ddinbych ac adrodd ar broblemau cyn eu cymeradwyo.
- Barn Swyddfa Archwilio Cymru yw bod cyfrifon Sir Ddinbych wedi cynrychioli golwg wirioneddol o'r sefyllfa ariannol, balansau a thrafodion.
- Mai'r bwriad yw cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar y datganiadau ariannol ar ôl darparu Llythyr o Gynrychiolaeth yn seiliedig ar yr hyn a nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad.
- Bod yr adroddiad archwilio arfaethedig wedi ei nodi yn Atodiad 2.
- Nad oedd unrhyw gamddatganiadau wedi eu nodi yn y datganiadau ariannol, sy'n aros heb eu cywiro.
- Camddatganiadau a gafodd eu cywiro gan y rheolwyr, a oedd, oherwydd eu perthnasedd yn y broses adrodd ariannol, wedi eu nodi gydag esboniadau yn Atodiad 3.
- Roedd materion a ystyriwyd fel rhai ansoddol a meintiol mewn perthynas â'r cyfrifon wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.
- Nid oedd materion arwyddocaol eraill yn codi o'r archwiliad.
- Cyfeiriwyd at gamgymeriad torbwynt yn ymwneud â'r Rhaglen Gyfalaf, a chadarnhawyd y byddai hyn yn anochel oherwydd cau system credydwyr ar ddyddiad penodol.

Diolchodd cynrychiolwyr Swyddfa Archwilio Cymru Dîm Cyllid Sir Ddinbych am y gwaith a wnaed yn cynhyrchu Datganiad Cyfrifon y Cyngor ac am eu cymorth a'u cefnogaeth. Cadarnhaodd SAC ansawdd uchel y cyfrifon a oedd unwaith eto wedi derbyn barn archwilio ddiamod.

Mewn ymateb i fater a godwyd gan y Cynghorydd M.L. Holland, cadarnhawyd nad oedd materion o bryder yn ymwneud â phroses gyfrifo, cofnodion na thrafodion y Cyngor.

Talodd y Pennaeth Cyllid ac Asedau deyrnged i waith caled ac ymestynnol y Tîm Cyllid yn cynhyrchu'r set gyfrifon derfynol, a nododd y cynnydd arwyddocaol yn y manylion sydd eu hangen wrth eu llunio, gyda newidiadau parhaus yn yr IFRS.

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd, diolchodd Cadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor i'r Tîm Cyllid am eu gwaith caled ac ansawdd a safon y Datganiad Cyfrifon a gynhyrchwyd.

***PENDERFYNWYD***:-

*(a) Cymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon 2011/2012, Atodiad 1 i'r adroddiad, a'i lofnodi gan Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, a*
*(b) Bod Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a'r Prif Swyddog Cyllid yn llofnodi'r Llythyr Cynrychiolaeth.*

Daeth y cyfarfod i ben am 10.30 a.m.